

Registered number
IP30396R

Glamorgan County Cricket Club Limited
Report and Financial Statements
31 December 2018

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chairman's Report

I count myself exceptionally privileged to have been appointed as chair of this great club in June last year. My predecessors in this role have been very distinguished servants of Glamorgan and you may rest assured that I shall do my very best to reach the high standards which they have set.

In that respect, I should at the outset acknowledge the very considerable debt of gratitude that we owe to my immediate predecessor, Barry O'Brien. Barry was a formidable chairman of Glamorgan. He steered the club through some extraordinarily choppy waters. He represented us with great distinction in the corridors of power and, with others, has done a huge amount to bring financial stability to the club. Though considerable financial challenges remain for us as they do for other counties, there are potentially enormous benefits too, and, in no small part because of Barry's hard work, we are well equipped to seize the opportunities which will come our way over the next few years. It is no surprise that Barry's considerable talents have been appreciated far beyond Wales, and in particular we can be hugely proud that he has now been recruited to the board of the ECB. Though he has been there for a relatively short period, I know that he has already begun to make his mark. I have no doubt that he will go on to make a very significant contribution to the game of cricket at the very highest level in England and Wales.

One of Barry's achievements as chair of Glamorgan was to secure your approval for a radical change in the shape and structure of the club's board of directors. Major sporting organisations are now expected to have boards which are suitably diverse and whose collective skill sets enable them to support the executive to meet the challenges which they face. The ECB acknowledges that Glamorgan as a club is an exemplar in that respect. I should like to thank the board for the support which they have given me in my first few months in office and for the huge amount of work (often unseen) which they undertake for the club.

However, we have not forgotten our roots. On the contrary the board is hugely indebted to individuals who are part of the fabric of this club. We owe an enormous debt to Alan Jones, our President for the last few years. He and Megan have been magnificent and generous ambassadors of our club. Like so many of you, I have vivid memories of Alan (in my case at St Helen's in particular) dominating the crease as one of Glamorgan's greatest cricketers. We also owe a huge debt to another great man of Glamorgan, John Williams, of the Balconiers, now an honorary life member, who attends our board in an ambassadorial capacity and who can be relied on to provide the board, in his own modest way, with advice from someone steeped in the ways and traditions of Glamorgan. And, though his tenure on our board was relatively brief, I should like to extend my thanks to Gavin Rowlands, who decided to step down as a director, but who continues to make a very substantial contribution to our club as he has done over so many years.

As I have said, we are well placed to meet the challenges which lie ahead. Our primary task of course is to make our members proud of our young team. Hugh Morris in his report has acknowledged the profound disappointments of last season, and the steps which we have taken to put matters right. There are short term measures which we have taken, and which we hope will bear fruit. Like Hugh, I was exceptionally sorry that we had to part company with Robert Croft, another hugely distinguished servant of the club. Robert's record as a cricketer at the highest level is one of which he can be inordinately proud. His name will always be synonymous with the club which he represented with such great distinction.

Matthew Maynard has taken over the reins as interim head coach and I know that he is greatly encouraged by the progress many of our players have made over the winter. I am delighted too that Mark Wallace has joined as director of cricket. It might be appropriate now to dismiss any suggestion that his appointment was a case of "jobs for the boys." There was a strong international field of candidates but Mark's application and his interview put him head and shoulders above the others. He knows as much as anyone about county cricket and is hugely ambitious for the club and (rightly) for himself. We expect great things of him.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chairman's Report

With the advent of the new broadcasting arrangements secured by the ECB, these are exciting times for cricket in general and Glamorgan in particular. We are optimistic that this will be a season when some of our younger players begin to show a maturity that could not be expected of them last year. I have no doubt that our strategy of developing a strong team made up of largely home grown players, a team which is truly representative of Wales, and of restoring cricket to its rightful place as the summer sport, is right. We are working hard with our colleagues at Cricket Wales and the ECB to make sure that we build on the strong foundations in place.

As Barry O'Brien said in his introduction to last year's report, we aim to be the white-ball venue of choice. We are therefore delighted that in June this year we shall be hosting four matches in the ICC World Cup preceded on 5 May by the T20 game between England and Pakistan. And I have no doubt that the new competition ("The Hundred") which will begin next year with Sophia Gardens as one of eight venues has the potential to transform our summer game and bring huge benefits to our club.

Perhaps I could conclude with my own note of thanks to our Chief Executive Hugh Morris who works tirelessly for the club, and who had made it far easier for me to step into the role of chairman than I had any reason to expect. Notwithstanding the disappointment of last season we look forward with great anticipation to the summer of 2019 and beyond.

Gareth Williams
Chairman
26 February 2019

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Cadeirydd

Rwy'n ei ystyried yn anrhydedd o'r mwyaf imi gael fy mhenodi'n gadeirydd y clwb gwych hwn ym Mehefin y llynedd. Mae fy rhagflaenwyr yn y swydd wedi bod yn weision nodedig i Forgannwg, a gallaf eich sicrhau y byddaf yn gwneud fy ngorau glas i gynnal y safonau uchel a osodwyd ganddynt.

Yn hyn o beth, dylwn gydnabod i ddechrau y ddyled enfawr o ddiolchgarwch sydd arnom i fy rhagflaenydd uniongyrchol, Barry O'Brien. Roedd Barry'n gadeirydd grymus a chadarn i Forgannwg. Llywiodd y clwb drwy ddyfroedd tymhestlog iawn. Fe'n cynrychiolodd gydag urddas rhyfeddol yng nghoridorau grym ac, ynghyd ag eraill, gwnaeth llawer iawn o waith i ddod â sefydlogrwydd ariannol i'r clwb. Er bod yr heriau ariannol sylweddol yn parhau i ni, fel i nifer o siroedd eraill, mae yna fuddiannau enfawr posib hefyd, ac yn sgil gwaith caled Barry, i raddau helaeth iawn, rydym mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw i'n rhan dros y blynyddoedd nesaf. Nid yw'n syndod bod doniau sylweddol Barry'n cael eu gwerthfawrogi ymhell tu hwnt i Gymru, a gallwn ymfalchïo'n arbennig yn y ffaith ei fod wedi'i recriwtio erbyn hyn i fwrdd yr ECB. Er mai am gyfnod byr yn unig y mae wedi bod yno, gwn ei fod wedi dechrau gwneud ei farc yn barod. Rwy'n ffyddiog y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol iawn i griced ar y lefelau uchaf yng Nghymru a Lloegr.

Un o lwyddiannau Barry fel cadeirydd Morgannwg oedd cael eich cymeradwyaeth ar gyfer newid radical yn siâp a strwythur bwrdd cyfarwyddwyr y clwb. Y dyddiau hyn, disgwylir bod gan y prif sefydliadau chwaraeon fyrdau sy'n cynnwys amrywiaeth addas a setiau sgiliau cyfun, sy'n eu galluogi i gynorthwyo'r pwyllgor gweithredol i gwrdd â'r heriau a wynebir ganddynt. Mae'r ECB yn cydnabod bod Morgannwg, fel clwb, yn enghraifft dda o hynny. Hoffwn ddiolch i'r bwrdd am y gefnogaeth a gefais ganddynt yn ystod fy misoedd cyntaf yn y swydd ac am y gwaith enfawr (anweledig yn aml) a wneir ganddynt ar gyfer y clwb.

Fodd bynnag, nid ydym wedi anghofio'n gwreiddiau. I'r gwrthwyneb, mae'r bwrdd yn hynod ddyledus i'r unigolion hynny sy'n rhan o wneuthuriad y clwb hwn. Mae arnom ddyled enfawr i Alan Jones, ein llywydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Megan ac yntau wedi bod yn llysgenhadon ardderchog a hael i'n clwb. Fel cymaint ohonoch, mae gen i atgofion clir o Alan (yn fy achos i, yn San Helen yn arbennig) yn disgleirio ar y llain fel un o gricedwyr gorau Morgannwg. Mae arnom ddyled enfawr hefyd i un arall o fawrion Morgannwg, John Williams, o'r Balconiers, aelod anrhydeddus am oes erbyn hyn, sy'n mynychu'r bwrdd fel llysgennad ac sy'n un y gellir dibynnu arno i ddarparu'r bwrdd, yn ei ffordd ddiymhongar ei hun, â chynghor gan un sydd wedi'i drwytho yn arferion a thraddodiadau Morgannwg. Hefyd, er i'w gyfnod gyda'r bwrdd fod yn un gymharol fyr, hoffwn ddiolch i Gavin Rowlands, a benderfynodd roi'r gorau iddi fel cyfarwyddwr, ond sy'n parhau i wneud cyfraniad sylweddol iawn i'n clwb, fel y gwnaeth dros gymaint o flynyddoedd.

Fel y dywedais, rydym mewn sefyllfa da i gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau. Ein prif dasg wrth gwrs yw gwneud ein haelodau'n falch o'n tîm ifanc. Mae Hugh Morris, yn ei adroddiad, wedi cydnabod siomedigaethau mawr y tymor diwethaf, a'r camau a gymerwyd gennym i unioni pethau. Rydym wedi cymryd rhai mesurau tymor byr, a'r gobaith yw y bydd y rheiny'n dwyn ffrwyth. Fel Hugh, roeddwn yn hynod drist bod yn rhaid inni ffarwelio â Robert Croft, un arall o weision nodedig y clwb. Mae hanes Robert fel cricedwr o'r radd flaenaf yn un y gall fod yn hynod falch ohono. Bydd ei enw bob amser yn cael ei gysylltu â'r clwb a gynrychiolodd gyda'r fath rhagoriaeth.

Mae Matthew Maynard wedi cymryd yr awenau fel prif hyfforddwr dros dro, a gwn fod y cynnydd a wnaed gan nifer o'n chwaraewyr dros y gaeaf wedi bod yn galondid mawr iddo. Rwy'n hynod falch hefyd fod Mark Wallace wedi ymuno fel cyfarwyddwr criced. Gall fod yn addas nawr ymwrthod ag unrhyw awgrym bod ei benodiad yn achos o 'jobs i'r bois'. Roedd yna nifer o ymgeiswyr rhyngwladol cryf, ond roedd cais a chyfweliad Mark yn ei osod pen ac ysgwyddau uwchlaw'r gweddill. Mae'n gwybod llawer am griced sirol ac mae ganddo gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y clwb ac (fel sy'n iawn) ar gyfer ei hunan. Disgwylwn bethau mawr ganddo.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Cadeirydd

Gyda dyfodiad y trefniadau darlledu newydd a sicrhawyd gan yr ECB, mae hon yn adeg gyffrous i griced yn gyffredinol ac i Forgannwg yn arbennig. Rydym yn optimistig y bydd hwn yn dymor pan fydd rhai o'n chwaraewyr iau yn dechrau dangos aeddfedrwydd na ellid fod wedi'i ddisgwyl ganddynt y llynedd. Does gen i ddim amheuaeth bod ein strategaeth o ddatblygu tîm cryf, sy'n cynnwys chwaraewyr cartref yn bennaf ac sydd wir yn cynrychioli Cymru, ac o adfer statws criced fel camp yr haf, yn un gywir. Rydym yn gweithio'n galed gyda'n cydweithwyr yng Nghriced Cymru a'r ECB i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd yn eu lle.

Fel y dywedodd Barry O'Brien yn ei gyflwyniad i'r adroddiad y llynedd, ein nod yw bod yn un o'r lleoliadau pêl wen mwyaf atyniadol. Rydym wrth ein boddau felly ein bod, ym Mehefin eleni, yn llwyfannu pedair gêm yng Nghwpan y Byd yr ICC, a chyn hynny'r gêm T20 rhwng Cymru â Phacistan ar 5 Mai. A does gen i ddim amheuaeth bod gan y gystadleuaeth newydd ("The Hundred") a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf, gyda Gerddi Sophia yn un o'r wyth lleoliad, y potensial i drawsnewid ein gêm haf a dod â buddiannau mawr i'n clwb.

Rwyf am gloi trwy ddiolch yn bersonol i'n Prif Weithredwr, Hugh Morris, sy'n gweithio'n ddiflino dros y clwb, ac sydd wedi gwneud hi'n haws o lawer i mi gamu i rôl y cadeirydd nag y gallwn fod wedi'i ddisgwyl erioed. Er gwaethaf siomedigaeth y tymor diwethaf, rydym yn edrych ymlaen gydag arddeliad at haf 2019 a thu hwnt.

Gareth Williams
Cadeirydd
26 Chwefror 2019

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The directors present their report and financial statements for the year ended 31 December 2018.

Principal activities

The principal activity of the Club is to promote, encourage and foster the game of cricket for the benefit of the members at all levels in Wales.

Review of the year

2018 was a bitterly disappointing season for everyone associated with Glamorgan County Cricket Club. A season which started with such promise with a hard-fought victory in our first Specsavers County Championship match at Bristol, soon led to frustration as international call-ups and significant injuries to key players left us short of experience, particularly in the batting department.

Our target for the Championship at the beginning of the summer was to achieve a top five spot whilst providing some of our most talented youngsters opportunities at First Class level around some pillars of experience. We were mindful the retirements of Jacques Rudolph and Will Bragg and the loss of Colin Ingram from the 'red ball' team would leave a big hole to fill at the top of the order, but we were hoping the recruitment of a top-quality overseas player and the progress of some of our more experienced players would go some way to bridging the gap.

In Shaun Marsh we firmly believed we had recruited a player who would follow in the footsteps of Sir Viv Richards, Waqar Younis, and Majid Khan in bringing out the best in players who had been developed through our system. Importantly he had not represented Australia in short forms of the game for three years and consequently was likely to be available for the whole of the 2018 season.

Unfortunately for us, a change of Australian Coach led to a change of selection policy and Shaun was called-up by Australia for the NatWest One Day Series against England in May and June. This resulted in him missing six weeks of our early season programme and in a cruel twist of fate, a shoulder dislocation in his second match back curtailed his contribution to the Club for the rest of the year.

Usman Khawaja had been recruited as our second overseas player for the Vitality Blast competition and he agreed to arrive early to play some Championship cricket as a replacement for Marsh.

In his short stay at the Club, Usman made a big impression on the field, becoming the first player in Glamorgan's history to score hundreds in his first three Championship matches. He was an extremely popular member of the dressing room and it was another blow to us that he was recalled by Cricket Australia to attend a training Camp in Brisbane before going on the Australia 'A' tour to India in August. At the end of the season, our third overseas player in our Championship campaign was Stephen Cook who was unable to make a significant contribution in the short time he was with us.

Early season injuries to Michael Hogan and Craig Meschede left resources for our 50 over campaign very thin and a major hamstring injury to Marchant de Lange resulted in him sitting on the side-lines for most of the summer.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The loss of so many experienced players had a very significant impact on our plans and meant more young players than anticipated were exposed to extended periods of first team action. It certainly was not an ideal scenario but some of these players will have a much better idea of the standards required of being a successful professional cricketer and a number of them showed glimpses of their future potential. Kiran Carlson made an excellent 152 against Derbyshire at St Helen's and made some telling contributions in 'white ball' cricket, whilst Kieran Bull, Ruaidhri Smith and Lucas Carey (before an ankle injury ended his season prematurely) all showed some promise for the future.

David Lloyd was hampered by a knee injury for much of the summer and was unable to build on an excellent start to the season whilst others will reflect on disappointing campaigns. A cursory glance at the batting averages shows that Khawaja was the only frontline batsman to average above 30 which should provide enough challenge and motivation for them to recognise a great deal of hard work needs to happen before next season.

As far as the bowling was concerned, Timm Van Der Gugten enjoyed a return to fitness following injury frustrations in 2017 and returned 43 wickets at 21.77 in First Class cricket including a career best 7/42. His efforts won him the Player of the Year Award for the second time in three years and pipped the evergreen Michael Hogan to the honour.

Despite the burdens of captaincy of the Championship side in an extremely challenging year, Michael had another rewarding season with the ball taking 45 wickets at 22.53 apiece. Although Michael turned 37 at the beginning of the season, he once again proved he has more 'petrol in the tank' than most seam bowlers approaching their 40th birthday and continues to be an excellent role model to aspiring young professionals.

Our performances in the Vitality Blast T20 were more encouraging as we continued to challenge the best in a strong Southern Group. Although we failed to meet our target of reaching the quarter-final stages of the competition, we were in with a chance of qualification until the very last game and a record-breaking five wins in a row was a glimpse of the potential of the team.

An important ingredient in our home performances was the quality of our pitches in 'white ball' cricket. Head groundsman Robin Saxton and his team should feel proud of the very significant improvements we have seen in our surfaces in recent years. A position of third in the One Day pitch marks represents a major step forward and a great basis for providing more entertaining cricket.

On the flatter pitches our bowling at times in T20 cricket looked a little predictable and there is plenty of room for improvement in our out-fielding, but few will disagree that in Colin Ingram we have a 'white ball' player who can be counted as one of the very best in the world.

Ingram had yet another remarkable season averaging more than 50 in both 'white ball' competitions and continues to build his reputation as the Club's most successful short form batsman ever. His recent recruitment to the Delhi Capitals in the Indian Premier League is a very significant blow to us as he will miss our Royal London 50 over campaign in 2019 but is an outstanding opportunity for him to benefit from the profile and financial rewards of the hugely successful tournament.

Towards the end of the summer we learned that Aneurin Donald had decided his career aspirations would be better served at Hampshire rather than Glamorgan. It is of course disappointing to lose any talented young players developed through our system and we will refocus our efforts on providing the necessary support and challenge for players to meet their goals at Glamorgan rather than feeling the need to cross the Severn Bridge.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

Our second eleven enjoyed some improved results in 2018 and benefitted from providing more local youngsters with greater opportunities. Kieran Bull's consistency was rewarded with 2nd XI Player of the Year and Jeremy Lawlor made some important strides forward with both bat and ball. Kazi Symanski, Callum Taylor and Prem Sisodiya also made some good progress with the latter making an impressive Championship debut against Derbyshire at St Helen's.

Whilst the strategy of building a strong Welsh core to our team continues to be a long-term aspiration for the Club, the Board was determined to address the issues we faced in the short term following such a disappointing season.

The usual annual report of the cricket department was supplemented by a review by an external consultant experienced in high performance sport. The consultant interviewed all the players and management on a confidential basis and the findings were presented to the Board in October. Following considerable discussion, the Board determined to implement the following fifteen changes:

- 1 The findings of the independent report should be considered and actioned by the Board.
- 2 The roles of Chief Executive and Director of Cricket should be separated and a new Director of Cricket recruited at the earliest opportunity.
- 3 The Club should recruit two top order batsmen to supplement resources for the 2019 season.
- 4 The Club should establish a contingency plan for an overseas player in 2019 in the likely event of Shaun Marsh being unavailable.
- 5 The Club should recruit a second overseas player for the Vitality Blast T20 competition.
- 6 The Club should invest £14,000 + VAT in the SIS 4G surface for the netting block in front of the Grandstand as Phase 1 of a project to significantly improve practice facilities at the Club.
- 7 The Club should invest £4,000 + VAT in a netting system which is able to support the protection of pitches and mitigate the risk of injury to spectators.
- 8 The ground staff should ensure infrastructure is in place for all net and middle practices including sightscreens
- 9 The Club should establish an annual 'scholarship' budget of £25,000 from winter 2020/21 to invest in bespoke development of players at overseas Camps / Academies.
- 10 The National Cricket Centre should be prioritised for cricket programmes over commercial activities from winter 2019/20.
- 11 The Club should actively investigate a second ground for hosting competition and preparation programmes for 2nd XI, Academy and Age Group cricket for boys and girls as well as some First Class and List A cricket for opening at the earliest possible opportunity.
- 12 The Club Physiotherapy services should be brought 'in-house' through the employment of 2 Physiotherapists from 1st January 2020.
- 13 The Club should engage with the Professional Cricketers' Association (PCA) to provide media training to identified players as part of their career development plans.
- 14 The community responsibilities of players and management should be reviewed and players encouraged to link more closely with their allocated Clubs.
- 15 The management and players should be encouraged to undertake media responsibilities in a timely manner.

Two of the most fundamental changes involved the splitting of the roles of Chief Executive and Director of Cricket into two separate positions and the decision to change the head coach.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The open recruitment process for the director of cricket began in October and was completed shortly before Christmas. Fourteen applications were received for the vacancy and four candidates were short listed for interview. The Panel decided unanimously that the outstanding candidate was Mark Wallace and he will begin his role in February 2019. The skills and knowledge he has gained over the past two years in his role at the PCA, as well as the respect he enjoys within the game, makes him the ideal candidate for the role.

The Board also decided to increase investment in playing resources with a particular focus on bolstering our top order batting. The recent recruitment of Billy Root from Nottinghamshire and Charlie Hemphrey from Queensland will provide some much-needed competition for places in our batting line-up.

There has been no prouder Welshman to wear the daffodil than Robert Croft and it was with an extremely heavy heart that the Board decided a change of head coach was required. Robert is one of our greatest ever players and a wonderful Ambassador for Glamorgan Cricket and will always be welcomed at the Club for the huge contribution he has made to our history. It was one of the toughest days of my career informing him of the decision and I am sure everyone will join me in wishing him all the very best for his career.

Off the field it has been another extremely busy year as we continue to build strong foundations for the future of the Club. The changes to our governance over the past twelve months have created a Board with the skills and diversity to successfully run a business regularly turning over more than £7m and is recognised by ECB as an exemplar of good practice in County cricket.

In June, we welcomed the arrival of our new head of commercial Huw Warren from Ospreys Rugby. Huw was born in Crickhowell and has extensive experience of the local market and has worked closely with our non-executive directors Rez Hassan and Sameer Rahman in developing a commercial strategy for the next three years.

Our international programme was again a great success as we enjoyed full houses for our One Day International between England and Australia and our T20 match between England and India. Customer experience scores for the Australia match were generally good whilst customer feedback from the India match was very good.

Our venue is widely regarded as providing one of the warmest welcomes in cricket and the contributions of our stewards and volunteers is simply outstanding. Dan Cherry and his team should also be commended for their diligent efforts in providing a safe and secure environment in challenging times.

Although our attendances for the Vitality Blast competition were marginally up, we have some way to go in matching the attendances being enjoyed by some of our competitors and we will continue to focus marketing efforts on regularly achieving crowds of more than 8,000 at Sophia Gardens.

In recent years we have increasingly diversified our income streams and 2018 was no different as international darts returned to the stadium alongside a sold out 'Evening of Abba' and a very successful fireworks event. Our head of catering and events, Amanda Simisker, will continue to explore ways in which we can use our venue to increase revenues to reinvest in our cricket programmes.

Under the leadership of Mark Frost, our community programme is becoming an increasingly important part of our offering at the Club and is attracting significant annual growth. In 2014, our stadium tour footfall was less than 2,000 and in 2018 has risen to 12,500.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The hard work and dedication of Dr Andrew Hignell and his group of committed volunteers was richly rewarded during 2018 as the Museum of Welsh Cricket became the first fully accredited cricket museum in the United Kingdom.

It was a pleasure to once again host a number of community cricket events including Cricket Wales T20 and age group finals days and the Community Cohesion Cup. We also opened the doors of the stadium to host other events and were delighted to provide positive experiences to wide and diverse community groups.

During T20 matches at Sophia Gardens we were also delighted to support a number of charities including; The Princes Trust, Bullies Out, Shelter Cymru, Pedal Power and Alzheimer's Wales in their fundraising efforts and raising awareness of such great causes.

Over the last five years we have focused on putting some foundations in place on which to build a successful and sustainable Club. The growth in our community programme, financial restructuring, governance changes and the securing of high-profile matches for Sophia Gardens until 2024 are all important building blocks for a brighter future.

We can thank many people for navigating us through an extremely challenging period to this point and none more so than our former Chairman Barry O'Brien. Barry 'strapped on the pads' as Chairman of the Club in 2011 and never shied away from batting on a very challenging pitch. His innings has been appreciated by everyone at the Club and we are delighted he has been appointed as a director of the ECB Board.

Barry has paved the way for us to take full advantage of the increasing investment we will be receiving from the ECB from 2020 as part of the new broadcasting deal. Whilst our recent past has all been about survival, our future will be about investing in developing a cricket team in which Wales can be proud.

Following the decisions made by the Board at the end of last summer we are seeking to draw a line under the 2018 season and focus on developing a new era for cricket in Wales. We have much to do and with your continued support, we have a great opportunity of once again making Wales proud of our achievements on and off the field.

Financial Review

In 2016 and 2017 I explained the fluctuating nature of the Club's profitability as a consequence of the number and nature of international cricket fixtures and one-off distributions from the ECB. The Club has posted EBITDA profits and losses since 2015 as follows:

2015	profit	£1.201m
2016	loss	£0.308m
2017	profit	£1.646m (before exceptional receipts)
2018	loss	£0.365m

The Club is budgeting to make an EBITDA profit in 2019. The above annual volatility has run alongside relatively stable underlying Club income and expenditure for all non-international revenues and expenditures.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

The 2018 EBITDA loss was as budgeted with very small variations in key revenue and expenditure lines. As outlined in 2018, the financial position for the sector improves substantially in 2020, but during 2018 and 2019 the resources have been and continue to be carefully managed.

In summary, the results are as follows:

	2018	2017	Change
	£'000	£'000	£'000
EBITDA *	(365)	4,146	(4,511)
Depreciation (net of grants)	(587)	(595)	8
Operating (loss)/profit	(952)	3,551	(4,503)
Year end bank and cash position	620	1,224	(604)
Year end net debt	2,754	2,456	(298)

*EBITDA is operating (loss)/profit before interest, taxation, depreciation and amortisation

2018 has been a relatively quiet year financially but there has been some steady progress in some areas.

Investment in cricket has increased slightly on 2017 at £2.2m. Cricket investment across the sector is reported by the ECB and the Club monitors carefully its relative position. In 2017 the Club was in the 3rd quartile of the 18 First Class Counties. It continues to be a key priority that the Club can invest sufficiently to produce a top performing side, but this is a process which will take time and is dependent upon a number of factors. As noted above, the Board has taken the decision to invest more in cricket in 2019 with total investment increasing to £2.5m, moving it close to the 2nd quartile (based upon 2017 data). This has been delivered through reductions in expenditure elsewhere in the Club. From 2020 onwards the Club will be working hard to increase further the resources available to improve its existing and upcoming players.

International cricket continues to produce good returns and the Club delivered a total financial contribution of £1.266m from hosting 2 England internationals - an ODI v Australia and an IT20 v India. Both matches were fully sold out. The economic impact of these 2 events to Wales has been assessed as £3.3m with 61% of ticket buyers coming from outside of Wales.

Sponsorship revenues fell in 2018 following the end of the 10 year SSE Swalec sponsorship contract. However, other sponsorship revenues increased again and prospects for 2019 and 2020 look positive.

Conferencing and banqueting business delivered improved revenues for domestic match-day and non-match day business, increasing by £129k to £1.717m. In addition, profits of £108k were generated during 2 days of internationals and other commercial income lines including boxes and 125 Club membership products were supported.

Ticket sales for domestic matches improved from £191k to £263k, following a number of rain affected matches in 2017. As noted above, this remains a key area of development for 2019 and beyond.

Glamorgan County Cricket Club Limited
Registered number: IP30396R
Chief Executive's Report

Membership revenues continued to decline moving down slightly from £299k in 2017 to £285k in 2018. Investment in the team is obviously critical in reinvigorating this income line.

On the other expenditures side control has remained tight. A number of costs were incurred late in 2018 to restructure the business ready for 2019. A small number of redundancies were made which formed part of the rebalancing of expenditure between cricket and non-cricket areas of the Club.

Cash flow remains stable but has to be tightly managed throughout 2019 and early 2020.

Overall, the results for the year have been pleasing.

Looking ahead the Club is excited about 2019 and beyond. The 2019 World Cup contributes substantially to the Club, both as a host venue and through more sector-wide ECB distributions flowing from the tournament. Total financial returns to the Club expected from the event are £1.85m. From 2020 onward, the Club will see increases in ECB revenues which will be used to make further improvements in cricket investment. There will also be an opportunity to bring stadium maintenance up to date by 2025 and it will also be possible to bring the Club's net debt down to £nil by the end of 2025.

Alongside managing the Club's financial position, it will also be working with Cricket Wales during 2019 to bid to the ECB for incremental funding to be provided for the whole game in Wales during the 2020 – 2024 period. Investment in grass-roots cricket is one of the vital improvements needed for Cricket in Wales and the ECB's CPA process, which is inviting bids during 2019, provides an opportunity for us to see a material change in cricket investment in Wales.

Going Concern

In preparing the financial statements the Officers have considered the going concern status of the Club for twelve months from the date of approval of these financial statements. The Officers have considered the net current liability position at the year end and are satisfied that the Club can continue trading for the foreseeable future and that it is appropriate to prepare the financial statements on a going concern basis.

This report was approved by the board on 26 February 2019 and signed on its behalf.

Hugh Morris
Director
26 February 2019

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31ain Rhagfyr 2018.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y Clwb yw hyrwyddo, annog a meithrin criced er budd yr aelodau, ac ar bob lefel yng Nghymru.

Adolygiad o'r Flwyddyn

Roedd 2018 yn flwyddyn hynod o siomedig i bawb sy'n gysylltiedig â Chlwb Criced Morgannwg. Dechreuodd y tymor yn addawol gyda buddugoliaeth haeddiannol yn ein gêm gyntaf ym Mhencampwriaeth Sirol Specsavers ym Mryste, ond trodd hynny'n rhwystredigaeth yn fuan iawn wrth i alwadau rhyngwladol ac anafiadau sylweddol i chwaraewyr allweddol ein gadael yn brin o brofiad, yn enwedig ymhlith y batwyr.

Ein targed ar gyfer y Bencampwriaeth ar ddechrau'r haf oedd bod ymhlith y pump uchaf, tra'n darparu rhai o'n chwaraewyr ifanc mwyaf dawnus â chyfleoedd ar lefel Dosbarth Cyntaf ochr yn ochr â rhai o'n chwaraewyr hynod brofiadol. Roeddem yn ymwybodol y byddai ymddeoliad Jacques Rudolph a Will Bragg, a cholli Colin Ingram o'r tîm 'pêl goch' yn gadael bwlch mawr ar y brig, ond roeddem yn gobeithio y byddai recriwtio chwaraewr tramor penigamp, ynghyd â chynnydd rhai o'n chwaraewyr mwy profiadol yn helpu i gau'r bwlch.

Gyda Shaun Marsh roeddem yn credu'n bendant ein bod wedi recriwtio chwaraewr a fyddai'n dilyn ôl troed Syr Viv Richards, Waqar Younis, a Majid Khan o ran cael y gorau allan o chwaraewyr a ddatblygwyd drwy ein system ein hunain. Yn bwysig, nid oedd wedi cynrychioli Awstralia ar ffurfiau byr o'r gêm ers tair blynedd ac roedd felly'n debygol o fod ar gael am y tymor cyfan.

Yn anffodus i ni, arweiniodd newid o ran Hyfforddwr Awstralia at newid yn y polisi dethol, a chafodd Shaun ei alw i chwarae i Awstralia yng Nghyfes Undydd NatWest yn erbyn Lloegr ym mis Mai a Mehefin. Roedd hynny'n golygu ei fod yn colli chwe wythnos o'n rhaglen yn gynnar yn y tymor, ond mewn tro ffawd creulon, datgymalodd ei ysgwydd yn ei ail gêm yn ôl ac mi amharodd hynny ar ei gyfraniad i'r Clwb am weddill y flwyddyn.

Roedd Usman Khawaja wedi'i recriwtio fel ein hail chwaraewr tramor ar gyfer cystadleuaeth Vitality Blast, a chytunodd i gyrraedd yn gynnar i chwarae peth criced Pencampwriaeth i gymryd lle Marsh.

Yn ystod ei arhosiad byr gyda'r Clwb, gwnaeth Usman argraff fawr ar y cae, gan ddod yn chwaraewr cyntaf yn hanes Morgannwg i sgorio cannoedd yn ei dair gêm Pencampwriaeth gyntaf. Roedd yn aelod hynod boblogaidd yn yr ystafell newid ac roedd hi'n ergyd arall i ni pan gafodd ei alw'n ôl gan Criced Awstralia i fynychu gwrsyll hyfforddi yn Brisbane, cyn mynd ar daith 'A' Awstralia i India ym mis Awst. Ar ddiwedd y tymor, ein trydydd chwaraewr tramor yn ein hymgyrch Pencampwriaeth oedd Stephen Cook, a fethodd â gwneud cyfraniad sylweddol yn ystod ei amser byr gyda ni.

Yn sgil anafiadau Michael Hogan a Craig Meschede yn gynnar yn y tymor roeddem yn brin iawn o adnoddau ar gyfer ein hymgyrch 50 pelawd, ac oherwydd anaf difrifol i linydd y gar bu Marchant de Lange yn eistedd yn y pafiliwn am y rhan fwyaf o'r haf.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Roedd colli cymaint o chwaraewyr profiadol yn ergyd sylweddol i'n cynlluniau ac roedd yn golygu bod mwy o chwaraewyr ifanc na'r disgwyl yn chwarae i'r tîm cyntaf am gyfnod hir. Yn bendant nid oedd yn senario delfrydol, ond mi fydd yn golygu bod gan rhai o'r chwaraewyr hyn lawer gwell syniad o'r safonau sydd eu hangen i fod yn gricedwr proffesiynol llwyddiannus, a chawsom gipolwg ar botensial nifer ohonynt ar gyfer y dyfodol. Sgoriodd Kiran Carlson 152 ardderchog yn erbyn Swydd Derby yn San Helen a gwnaeth gyfraniadau arwyddocaol iawn yn y gêm 'pêl wen'. Hefyd dangosodd Kieran Bull, Ruaidhri Smith a Lucas Carey (cyn i anaf i'w bigwrn ddod â'i dymor i ben yn gynnar) addewid ar gyfer y dyfodol.

Cafodd David Lloyd ei rwystro gan anaf i'w ben-glin am lawer o'r haf a methodd ag adeiladu ar ddechrau ardderchog i'r tymor, tra bydd eraill yn myfyrïo ar ymgyrchoedd siomedig. Mae cipolwg ar y cyfartaleddau batïo'n dangos mai Khawaja oedd yr unig fatiwr rheng flaen i gael sgôr cyfartalog o 30, ac mi ddylai hynny fod yn ddigon o her a symbyliad iddyn nhw gydnabod bod angen gwneud llawer iawn o waith caled cyn y tymor nesaf.

O ran y bowlio, llwyddodd Timm Van Der Gugten i gael ei hun yn ffit unwaith eto yn dilyn anafiadau rhwystredig yn 2017, a chipiodd 43 o wicedi ar gyfartaledd o 21.77 rhediad y wiced mewn gemau Dosbarth Cyntaf, gan gynnwys perfformiad bowlio gorau ei yrfa, sef 7/42. Yn sgil ei ymdrechion enillodd Gwobr Chwaraewr y Flwyddyn am yr ail dro mewn tair blynedd, gan gipio'r anrhydedd o drwch blewyn oddi wrth y bytholwyrdd Michael Hogan.

Er gwaetha'r baich o fod yn gapten ar dîm y Bencampwriaeth yn ystod blwyddyn anodd iawn, cafodd Michael dymor arall llwyddiannus gyda'r bêl, gan gymryd 45 wiced ar gyfartaledd o 22.53 rhediad yr un. Er bod Michael yn 37 oed ar ddechrau'r tymor, profodd unwaith eto fod ganddo fwy o 'danwydd yn y tanc' na'r rhan fwyaf o sêmfowlwyr sy'n nesáu at ddeugain oed, ac mae'n parhau i fod yn esiampl wych i chwaraewyr ifanc sydd am chwarae ar lefel broffesiynol.

Roedd ein perfformiadau yn y Vitality Blast T20 yn fwy calonogol wrth inni barhau i herio'r gorau mewn Grŵp Deheuol cryf. Er inni fethu â chyrraedd ein nod o fod ymhlith y pedwar olaf yn y gystadleuaeth, roedd gennym obaith o gyrraedd yno tan y gêm olaf un, a chan ennill pum gêm yn olynol am y tro cyntaf erioed cawsom gipolwg ar botensial y tîm.

Un cynhwysyn pwysig yn ein perfformiadau cartref oedd ansawdd ein lleiniau criced 'pêl wen'. Dylai'r prif dirmon Robin Saxton a'i dîm fod yn falch iawn o'r gwelliannau sylweddol iawn a welwyd yn ein harwynebau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dod yn drydydd yn y marciau llain Undydd yn cynrychioli cam mawr ymlaen, ac mae'n sail ardderchog ar gyfer darparu mwy o griced diddorol.

Ar y lleiniau mwy gwastad roedd ein bowlio ar adegau yn y gystadleuaeth T20 yn edrych ychydig yn ddi-fflach ac mae digon o le i wella'n sgiliau allfaesu, ond ychydig fyddai'n anghytuno bod Colin Ingram yn chwaraewr 'pêl wen' y gellir ei gyfrif fel un o oreuon y byd.

Cafodd Ingram dymor anhygoel arall, gyda chyfartaledd batïo o fwy na 50 yn y ddwy gystadleuaeth 'pêl wen' ac mae'n parhau i adeiladu ar ei enw da fel un o fatwyr ffurf fer mwyaf llwyddiannus y Clwb erioed. Mae ei recriwtiad diweddar i Delhi Capitals ym Mhrif Gynghrair India'n ergyd sylweddol i ni oherwydd mi fydd yn colli ein hymgyrch yng nghystadleuaeth 50 pelawd Royal London yn 2019, ond mae'n gyfle anhygoel iddo elwa o broffil a gwobrwyon ariannol y twrnament hynod llwyddiannus honno.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Tua diwedd yr haf cawsom wybod hefyd bod Aneurin Donald wedi penderfynu y gall Hampshire foddhau ei ddyheadau fel chwaraewr yn well na Morgannwg. Mae'n siom wrth gwrs i golli unrhyw chwaraewyr ifanc dawnus a ddatblygwyd drwy ein system ni, a byddwn yn ail-ganolbwyntio'n hymdrechion ar ddarparu'r cymorth a'r her angenrheidiol i chwaraewyr wireddu eu hamcanion gyda Morgannwg, yn hytrach na'u bod yn teimlo'r angen i groesi Pont yr Hafren.

Cafodd ein hail dîm rai canlyniadau gwell yn 2018 gan elwa o ddarparu mwy o gyfleoedd i chwaraewyr ifanc lleol. Cafodd Kieran Bull Wobr Chwaraewr y Flwyddyn yr Ail Dîm am ei berfformiadau cyson, a gwnaeth Jeremy Lawlor gamau pwysig ymlaen fel batiwr a bowliwr. Hefyd gwnaeth Kazi Symanski, Callum Taylor a Prem Sisodiya gynnydd da, gyda'r olaf yn creu argraff yn ei gêm gyntaf yn y Bencampwriaeth yn erbyn Swydd Derby yn San Helen.

Er bod y strategaeth o adeiladu sylfaen Cymreig cadarn i'n tîm yn parhau i fod yn ddyhead hirdymor i'r Clwb, roedd y Bwrdd yn benderfynol o fynd i'r afael â'r problemau roeddem yn eu hwynebu yn y tymor byr yn dilyn tymor mor siomedig.

Yn ogystal ag adroddiad blynyddol arferol yr adran griced, cafwyd arolwg gan ymgynghorydd allanol sydd â phrofiad ym maes chwaraeon perfformiad uchel. Bu'r ymgynghorydd yn cyfwrdd â'r holl chwaraewyr a'r rheolwyr yn gyfrinachol a chyflwynwyd y canfyddiadau i'r Bwrdd ym mis Hydref. Yn dilyn trafodaeth sylweddol, penderfynodd y Bwrdd roi'r pymtheg newid canlynol ar waith:

- 1 Dylai canfyddiadau'r adroddiad annibynnol gael eu hystyried a'u rhoi ar waith gan y Bwrdd.
- 2 Dylid gwahanu rolau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Criced a dylid recriwtio Cyfarwyddwr Criced newydd cyn gynted â phosib.
- 3 Dylai'r Clwb recriwtio dau fatiwr i ychwanegu at yr adnoddau ar gyfer tymor 2019.
- 4 Dylai'r Clwb sefydlu cynllun wrth gefn ar gyfer chwaraewr tramor yn 2019 os digwydd bod Shaun Marsh ddim ar gael.
- 5 Dylai'r Clwb recriwtio ail chwaraewr tramor ar gyfer cystadleuaeth Vitality Blast T20.
- 6 Dylai'r Clwb fuddsoddi £14,000 + TAW yn yr arwyneb SiS 4G ar gyfer y bloc rhwydi o flaen yr Eistedd fel Cam 1 o brosiect i wella cyfleusterau ymarfer y Clwb yn sylweddol.
- 7 Dylai'r Clwb fuddsoddi £4,000 + TAW mewn system rwydi all helpu i amddiffyn y lleiniau a lleihau'r perygl o anaf i'r gwylwyr.
- 8 Dylai staff tir y Clwb sicrhau bod yna seilwaith yn ei le ar gyfer yr holl ymarferion rhwydi a batïo ar y llain, gan gynnwys sgriniau golwg.
- 9 Dylai'r Clwb sefydlu cyllideb 'ysgoloriaeth' flynyddol o £25,000 o aeaf 2020/21 ymlaen i fuddsoddi yn natblygiad chwaraewyr unigol mewn Gwersylloedd/Academïau tramor.
- 10 Dylai'r Ganolfan Griced Genedlaethol roi blaenoriaeth i raglenni criced yn hytrach na gweithgareddau masnachol o aeaf 2019/20 ymlaen.
- 11 Dylai'r Clwb fynd ati i chwilio am ail gae i gynnal cystadlaethau a pharatoi rhaglenni ar gyfer criced yr Ail Dîm, yr Academi a chriced Grwpiau Oedran ar gyfer bechgyn a merched, yn ogystal â pheth criced Dosbarth Cyntaf a Rhestr A, i'w agor ar y cyfle cyntaf.
- 12 Dylid gwneud gwasanaethau Ffisiotherapi'r Clwb yn rhai mewnol drwy gyflogi 2 Ffisiotherapydd o 1af Ionawr 2020.
- 13 Dylai'r Clwb gydweithio â'r Cymdeithas y Cricedwyr Proffesiynol (PCA) i ddarparu hyfforddiant cyfryngau i chwaraewyr penodedig fel rhan o'u cynlluniau i ddatblygu'u gyrfa.
- 14 Dylid adolygu cyfrifoldebau cymunedol chwaraewyr a rheolwyr gan annog chwaraewyr i ffurfio cyswllt mwy clos â'u Clybiau penodedig.
- 15 Dylid annog y rheolwyr a'r chwaraewyr i ymgymryd â chyfrifoldebau o ran y cyfryngau mewn modd amserol.

Y ddau newid mwyaf sylfaenol oedd rhannu rolau'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr criced i greu dwy swydd ar wahân, a'r penderfyniad i newid y prif hyfforddwr.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Dechreuodd y broses o recriwtio cyfarwyddwr criced ym mis Hydref a daeth i ben ychydig cyn y Nadolig. Derbyniwyd 14 o geisiadau am y swydd a lluniwyd rhestr fer o bedwar ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad. Penderfynodd y Panel yn unfrydol mai Mark Wallace oedd yr ymgeisydd oedd yn rhagori, a bydd yn dechrau ar ei rôl yn Chwefror 2019. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ganddo yn sgil ei rôl gyda'r PCA, yn ogystal â'r parch tuag ato o fewn y gêm, yn golygu ei fod yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer y rôl.

Hefyd penderfynodd y Bwrdd fuddsoddi mwy yn yr adnoddau chwarae, gyda ffocws arbennig ar roi hwb i'r chwaraewyr ar frig y rhestr fatio. Bydd recriwtiad diweddar Billy Root o Swydd Nottingham a Charlie Hemphrey o Queensland yn creu cystadleuaeth sydd wir ei angen ymhlith ein batwyr.

Ni fu unrhyw Gymro mwy balch erioed o wisgo Cenhinen Pedr na Robert Croft, ac felly gyda chalon drom iawn y penderfynodd y Bwrdd bod angen newid y prif hyfforddwr. Mae Robert yn un o'n chwaraewyr gorau erioed ac yn Llysgennad ardderchog i Glwb Criced Morgannwg, a bydd croeso iddo bob amser yn y Clwb oherwydd y cyfraniad enfawr a wnaeth i'n hanes. Roedd rhoi gwybod iddo am y penderfyniad yn un o ddiwrnodau anoddaf fy ngyrfa, a dwi'n siŵr y bydd pob un ohonoch yn ymuno â mi i ddymuno'n dda iddo yn ei yrfa.

Oddi ar y cae bu'n flwyddyn arall hynod o brysur wrth inni barhau i adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer dyfodol y Clwb. Mae'r newidiadau i'n trefn lywodraethu dros y deuddeg mis diwethaf wedi creu Bwrdd sydd â'r sgiliau a'r amrywiaeth i redeg busnes llwyddiannus, gyda throsiant rheolaidd o dros £7m, ac mae wedi'i gydnabod gan yr ECB fel esiampl o arfer da o fewn criced Sirol.

Ym Mehefin cawsom gyfle i groesawu ein pennaeth masnachol newydd, sef Huw Warren o Glwb Rygbi'r Gweilch. Ganwyd Huw yng Nghrughywel ac mae ganddo brofiad helaeth o'r farchnad leol. Mae hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n cyfarwyddwyr anweithredol, sef Rez Hassan a Sameer Rahman, yn datblygu strategaeth fasnachol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Unwaith eto roedd ein rhaglen ryngwladol yn llwyddiant mawr, ac roedd pob sedd yn llawn ar gyfer ein gêm Undydd Ryngwladol rhwng Lloegr ac Awstralia a'n gêm T20 ryngwladol rhwng Lloegr ac India. Roedd y sgorau profiad cwsmeriaid ar gyfer gêm Awstralia'n dda ar y cyfan ac roedd adborth cwsmeriaid gêm India'n dda iawn.

Mae ein lleoliad yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel un sy'n darparu croeso cynnes dihafal o fewn y byd criced ac mae cyfraniadau'n stiwardiaid a'n gwirfoddolwyr yn aruthrol. Dylid hefyd cymeradwyo Dan Cherry a'i dîm am eu hymdrechion diwyd i ddarparu amgylchedd diogel yn ystod cyfnod heriol.

Er bod rhywfaint o gynnydd yn y niferoedd a fynychodd y gystadleuaeth Vitality Blast, mae gennym waith i'w wneud o hyd i gael yr un math o ffigurau presenoldeb â rhai o'n cystadleuwyr, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n hymdrechion marchnata ar ddenu tyrfaoedd o dros 8,000 i Erddi Sophia.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cynyddu amrywiaeth ein ffrydiau incwm ac nid oedd 2018 yn wahanol yn hynny o beth wrth i ddartiau rhyngwladol ddychwelyd i'r stadiwm, ochr yn ochr â'r noson 'Evening of Abba' gyda phob tocyn wedi'i werthu. Hefyd cynhaliwyd digwyddiad tân gwyllt llwyddiannus iawn. Bydd ein pennaeth arlwygo a digwyddiadau, Amanda Simisker, yn parhau i edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'n lleoliad i gynyddu'n referniw er mwyn ail-fuddsoddi yn ein rhaglenni criced.

Clwb Criced Morgannwg Cyfyngedig
Rhif Cofrestredig: IP30396R
Adroddiad y Prif Weithredwr

Dan arweiniad Mark Frost, mae ein rhaglen gymunedol yn dod yn rhan gynyddol bwysig o'r hyn sydd gennym i'w gynnig yn y Clwb, ac mae'n sicrhau twf blynyddol sylweddol. Yn 2014, roedd y nifer a gafodd eu tywys ar daith o amgylch y stadiwm yn 2,000 ac yn 2018 roedd wedi codi i 12,500.

Cafodd gwaith caled ac ymrwymiad Dr Andrew Hignell a'i grŵp o wirfoddolwyr ymrwymedig ei wobrwyo yn 2018, ac Amgueddfa Criced Cymru yw'r amgueddfa griced gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael achrediad llawn.

Roedd yn bleser unwaith eto i gynnal nifer o ddigwyddiadau criced cymunedol, gan gynnwys cystadleuaeth T20 Criced Cymru a diwrnodau rowndiau terfynol y grwpiau oedran a'r Cwpan Cydlyniant Cymunedol. Agorwyd drysau'r stadiwm hefyd ar gyfer llw o ddigwyddiadau eraill ac roeddem wrth ein boddau'n darparu profiadau positif i grwpiau cymunedol eang ac amrywiol.

Yn ystod y gemau T20 yng Ngerddi Sophia roeddem hefyd yn falch o gael cefnogi nifer o elusennau, gan gynnwys: Ymddiriedolaeth y Tywysog, Bullies Out, Shelter Cymru, Pedal Power a Chymdeithas Alzheimer Cymru yn eu hymdrechion i godi arian a chynyddu ymwybyddiaeth o achosion mor deilwng.

